

CAERSALEM

Caernarfon

Pam dod yn aelod?

I fod yn aelod o Eglwys Gatholig Iesu Grist (fyd eang) yr hyn sy'n bwysig yw ymddiried yn Iesu Grist fel eich Arglwydd a'ch Gwaredwr. Ond rydym ni'n credu, wrth edrych ar y Testament Newydd, fod Duw wedi galw ei bobl at ei gilydd yn eglwysi lleol hefyd. Mae perthyn i eglwys leol yr un mor bwysig a pherthyn i'r Eglwys Gatholig. Dyma drafod pam:

- 1.** Mae'n Feiblaidd. Roedd Iesu yn sefydlu eglwysi lleol ac roedd yr holl apostolion yn gwneud eu gweinidogaethu trwy eglwysi lleol. Mae'r bywyd Cristnogol yn y Testament Newydd gyfystyr a bywyd mewn eglwys leol. Dylai Cristnogion heddiw ddisgwyl a dyheu am fywyd Cristnogol tebyg.
- 2.** Yr Eglwys yw ei haelodau – pobl nid adeilad. Ystyr bod yn "eglwys" yn y Testament Newydd yw i fod yn aelod ac i berthyn – dyma rydym ni'n ei weld trwy lyfr yr Actau. Mae bod yn aelod o'r Eglwys yn fraint anhygoel oherwydd mae'n golygu eich bod yn perthyn i'r corff y daeth Iesu i'w achub ac i gymodi gydag ef ei hun.
- 3.** Yn y Beibl mae perthyn i'r eglwys wedi ei glymu i fewn yn agos gyda Swper yr Arglwydd. Mae Swper yr Arglwydd yn bryd o fwyd i'r eglwys fwyta gyda'i gilydd, hynny yw i'w haelodau (gweler 1 Corinthiaid 11:20, 33). Mae'n naturiol i bob Cristion fod eisiau cymryd Swper yr Arglwydd gan ei fod (i.) ar lefel bersonol yn ein hatgoffa beth wnaeth Iesu drosom ond (ii.) ar lefel gyhoeddus yn ddatganiad ein bod ni'n perthyn i'w bobl, yr eglwys.
- 4.** Mae llawer o bobl yn honni eu bod yn cynrychioli Iesu yn y byd heddiw. Wrth berthyn i eglwys Iesu Grist rydych chi'n medru cynrychioli Iesu yn swyddogol drwy ddatgan eich bod yn ddinesydd Teyrnas Crist. Mae hyn yn fraint a dylai pob Cristion fod eisiau perthyn i'r Eglwys yn fwy nag unrhyw glwb neu gymdeithas arall.
- 5.** Yn dilyn ymlaen o'r pwynt blaenorol – drwy ymuno a'r Eglwys rydych chi'n datgan eich teyrngarwch pennaf. Mae gan y Cristion, fel pawb arall, ddyletswyddau eraill i wahanol gymdeithasau ac ati; ond drwy fod yn aelod o eglwys Iesu Grist rydych chi'n cyhoeddi fod eich teyrngarwch pennaf yn perthyn i Iesu – "Rydw i'n dilyn Iesu".
- 6.** Mae'r Beibl yn rhoi delweddau i ni sut mae byw a gwasanaethu fel Cristnogion – dim ond gyda'n gilydd mewn eglwys leol y gall y Cristion ddod yn "gorff Crist" gan fod hynny dim ond yn bosib mewn partneriaeth a Christnogion eraill. Pob un yn ymgorffori'r gwahanol drosiadau sydd yn 1 Corinthiaid 12 – "Llawer o Aelodau mewn Un Corff". Yn yr eglwys leol mae'r Cristion unigol yn gweithio hyn allan ac yn adnabod ei bwrpas yn y corff.

7. Er fod galwad ar y Cristion i garu a gwasanaethu pawb yn ddi-wahân, mae'r Beibl yn sôn llawer am gariad a gofal penodol Cristnogion i'w gilydd. Wrth fod yn aelod o eglwys leol rydych chi'n gallu adnabod y Cristnogion hynny y mae galwad arnoch i roi gofal iddynt yn ogystal a bod yn agored i dderbyn gofal eich hun pan mae angen. Gweler Effesiaid 4:11-16, 25-32.

8. Wrth alw pobl i gyflawni gwahanol ddyletswyddau mae Duw yn galw arweinwyr i'w eglwys. Wrth ddod yn aelod o eglwys rydych chi'n adnabod pa arweinwyr i'w dilyn, ond hefyd i'w dal yn atebol. Gweler Hebreaid 13:7 - "Cadwch mewn cof eich arweinwyr, y rhai a lefarodd air Duw wrthyh; myfyriwch ar ganlyniad eu buchedd, ac efelychwch eu ffydd."

9. Yn dilyn ymlaen o'r pwynt blaenorol, mae aelodaeth eglwysig yn caniatáu arweinwyr i wybod pwy maen nhw'n eu harwain ac yn benodol pa Gristnogion y mae galwad iddynt "wylio'n ddiorffwys" dros eu heneidiau ac dros ba Gristnogion y bydd disgwyl iddynt "roi cyfrif" amdanynt – gweler Hebreaid 13:17.

10. Mae llawer o arweiniad yn y Beibl ynglŷn a disgyblaeth eglwysig. Mae aelodaeth eglwysig yn caniatáu i Gristnogion ddilyn arweiniad y Beibl ynglŷn a hyn mewn modd gyfrifol, doeth a chariadus. Gweler 1 Corinthiaid 5.

11. Mae aelodaeth eglwysig yn rhoi strwythur i'r bywyd Cristnogol. Mae "ufuddhau" a "dilyn" Iesu yn dod yn rhywbeth rydym ni'n ei wneud gyda'n gilydd mewn sefyllfaoedd go-iawn gyda phobl go-iawn. Gweler Ioan 14:15 - "Os ydych yn fy ngharu i, fe gadwch fy nghorchmynion i." Yn yr eglwys leol rydym yn profi os ydy hyn yn digwydd ai peidio.

12. Mae Duw yn galw pob Cristion i fod yn dystiolaeth iddo yn y byd. Mae'n galw ei bobl i fod yn "Genedl Sanctaidd" oherwydd fod tystiolaethu gyda'n gilydd yn haws ac yn ffordd llawer mwy effeithiol o rannu a dangos cariad Crist a gwirionedd yr efengyl i'r byd.

13. Yn olaf, mae aelodaeth eglwysig yn ymwneud a'n cyfrifoldeb i fod yn stiwardiaid cyfrifol gyda'n adnoddau. Gweler, er enghraifft, 1 Corinthiaid 16:1-2. Mae aelodaeth eglwysig yn caniatáu Eglwysi i fod yn stiwardiaid cyfrifol ac effeithiol wrth drefnu gweinidogaeth y gair, gofal dros eraill ac aelodaeth o gyrff cysylltiol (e.e. Mudiadau Cenhadol, Enwadau ayyb...) sydd a gofal dros ymrwymadau ymarferol a chyfreithiol eraill. Pethau diflas ond pethau pwysig sy'n ymwneud a'n cyfrifoldeb i fod yn stiwardiaid cyfrifol gerbron Duw.